

papur



priordy



**PWY A'M DWG I'R DDINAS GADARN,
LLE MAE DUW'N ARLWYO GWLEDD,
LLE MAE'R AWEL YN SANCTEIDDRWYDD,
LLE MAE'R LLWYBRAU OLL YN HEDD?**

**HYFRYD FORE
Y CÂF RODIO'I PHALMANT AUR.**

Moelwyn (1866-1944) - Caneuon Ffydd: 699


*Dewiswyd gan y Dr Huw Michael
Gweler y rheswm am ei ddewis y tu mewn*

**Rhifyn 318
PAPUR IONAWR 2019**

Ambell funud i feddwl gan ein Gweinidog

Wedi'r Nadolig

Wedi i gân yr angylion ddistewi,
wedi i'r seren gilio o'r ffurfafen,
wedi i'r brenhinoedd a'r tywysogion
ddychwelyd adref,
wedi i'r bugeiliaid ddychwelyd
at eu praidd,
yna bydd gwaith y Nadolig yn dechrau:
canfod y colledig,
iacháu'r clwyfedig,
bwydo'r newynog,
rhyddhau'r carcharor,
ailadeiladu'r cenhedloedd,
dwyn heddwch i blith y bobl,
creu cerddoriaeth yn y galon.



(o wefan Capel y Garn. Howard Thurman; dyfynnwyd yn Cristion, Nadolig 2009)

Addewidion

Mae gwneud addunedau adeg y flwyddyn newydd yn hen arfer. Yn wahanol i addunedau neu addewidion eraill maent yn cael eu gwneud cyn y Flwyddyn Newydd ac yn dynodi dechreuad newydd.

2018  **2019**

Dyma, yn ôl un papur dyddiol, restr o ddeg o'r addunedau a wneir amlaf adeg y flwyddyn newydd!

- 1 Mwy o ymarfer corff
- 2 Colli pwysau
- 3 Bwyta'n fwy iach
- 4 Gofalu am eich iechyd
- 5 Dysgu sgil newydd
- 7 Treulio mwy o amser yn edrych ar ôl yr hunan
- 8 Treulio mwy o amser gyda theulu a ffrindiau
- 9 Rhoi'r gorau i ysmegu
- 10 Arall

Yr hyn a'm trawodd yn syth wrth ddarllen y rhestr hon yw bod y chwe addewid a ddaeth agosaf at frig y rhestr yn canolbwyntio ar yr hunan. Yn wir, mae treulio mwy o amser gyda theulu a ffrindiau'n go isel ar y rhestr. Mae'r sawl a holwyd fel rhan o'r ymchwil ar gyfer llunio'r rhestr uchod naill ai'n teimlo'u bod eisioes yn treulio digon o amser gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau neu'n gwbl hunanol!



Ydych chi'n arfer gwneud addewidion blwyddyn newydd? Beth sydd ar eich rhestr addewidion chi tybed?

Dyma awgrym rhagorol ar gyfer addewidion blwyddyn newydd y Cristion.

**Addo wnaif i ti, fy Nuw,
rodio'n ufudd tra bwyf byw,
meithrin ysbryd diolchgar, mwyn,
meddwl pur heb ddig na chŵyn.**

**Addo wnaif i ti, fy Nuw,
wneud fy ngorau tra bwyf byw,
cymwynasgar ar fy nhaith,
nod gwasanaeth ar fy ngwaith.**

**Addo wnaif i ti, fy Nuw,
dystio'n ffyddlon tra bwyf byw,
sefyll dros y gwir a'r glân,
grym dy gariad imi'n gân.**

**Addo, ond ni allaf ddim
heb dy gymorth dwyfol im,
dilyn Crist yn d'Eglwys wnaif,
bywyd llawn yn wir a gaf.**



Tudor Davies (Caneuon Ffydd 766)

BLWYDDYN NEWYDD DDA I BOB UN O'N DARLLENWYR

Nansi Hayes...

BLWYDDYN NEWYDD. Ie, un arall eto wedi gwawrio, a'r cyfarchiad arferol yw, "*Blwyddyn Newydd Dda*", ac 'rwy am ddymuno hynny eleni eto. Mewn rhai o ôl-rifynau *Papur Priordy* bûm yn sôn am yr hen draddodiadau, y coelion a'r arferion yn ymwneud â Dydd Calan mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru, ond 'rwy am fynd ar drywydd arall y tro hwn, sef sôn am yr Hen Galan.



Dethlir yr Hen Galan ar 12 Ionawr, yn ôl y Calendr Iwlaidd, ond cafodd ei ddiddymu yn y flwyddyn 1752, a'i ddisodli gan y Calendr Gregoraidd, wedi'i gymeradwyo gan y Pab Gregory VIII. Dau le yng Nghymru yn unig y gwn i amdanynt sy'n dal i ddathlu'r

Hen Galan, sef Cwm Gwaun yn Sir Benfro, ac ardal Llandysul. (os gŵyr unrhyw un o'n darllenwyr am rywle arall, da chi cysylltwch â Phapur Priordy!).



Yng Nghwm Gwaun, nepell o Abergwaun, mae'r plant yn dal i gadw'r hen draddodiad o fynd o dŷ i dŷ'n canu rhai o'r penillion arferol fel:

Blwyddyn Newydd dda i chi
Ac i bawb sydd yn y tŷ,
Dyna yw'n dymuniad ni,
Blwyddyn Newydd dda i chi.

ac yn derbyn calennig mewn arian neu felysion.

Roedd Tŷ Tafarn Bessie, y "*Dyffryn Arms*", sy wedi bod yn yr un teulu er 1840 yn enwog iawn am gadw'r hen draddodiad yn fyw. Yn draddodiadol hefyd, roedd dathlu'r Hen Galan yn fwy pwysig na dathlu'r Nadolig, a byddai yna wleda mawr gyda gŵydd neu dwrci'n rheolaidd ar y bwrdd. Ond mae mwy o



wybodaeth gen i am ddathlu'r Hen Galan yn ardal Llandysul (diolch i Heledd Davies, Pren-gwyn, a aeth ar drywydd yr hen hanes,a'i gofnodi'n fanwl.

Felly, yr union fel Cwm Gwaun, ar 12 Ionawr y dethlir y Flwyddyn Newydd yn ei hardal hi. Yn ôl Heledd, mae dull y dathlu wedi newid yn llwyr i'r hyn ydoedd ddechrau'r bedwaredd ganrif ar



bymtheg. Yr adeg honno, arferid cynnal gêm bêl-droed rhwng trigolion plwyfi **Llanwenog** a Llandysul.

Gelwid y gêm yn Gêm y Bêl Ddu, oherwydd ei gwneuthuriad o bledren mochyn a'i gorchuddio â chas lledr. Fe allai'r gêm fod yn beryglus iawn, heb unrhyw reolau'n perthyn iddi! Deuai'r ddau dîm at ei gilydd hanner ffordd rhwng y ddau blwyf. Apwyntid

un i daflu'r bêl i'r awyr, ac yna rhuthrai'r ddwy garfan at ei gilydd. Nerth braich fyddai'n ennill yn hytrach na thacteg! Amcan y chwarae oedd ceisio cael y bêl yn ôl i borth yr Eglwys,naill ai yn **Llandysul** neu Lanwenog. Mae'n rhaid mai dyma oedd y cae chwarae mwyaf yn y wlad,yn ymestyn dros chwe milltir o hyd!



Roedd tipyn o yfed wedi digwydd yn ystod y dydd,a'r chwarae'n troi'n frwnt oherwydd hynny. Cafwyd gwrthwynebiad cryf i'r fath arferiad, yn enwedig wedi i fachgen ifanc gael ei ladd yn ystod un ornest, a thua 1833 gwnaed ymdrech gan glerigwyr o'r ddau blwyf i gynnal Cymanfa. Un o'r rhai a chwaraeodd ran flaenllaw yn y newid yma oedd y Parchedig Enoch James, Ficer **Llandysul**, a fe oedd sylfaenydd y Gymanfa Bwnc a ddisodlodd Gêm y Bêl Ddu.

Casglwyd Ysgolion Sul o fewn cylch o ddeg i ddeuddeg milltir i Landysul i ateb y Pwnc a chanu mawl yn Eglwys y Plwyf. Mae hynny wedi parhau hyd y dydd heddiw,gan ddilyn y dull arferol o adrodd neu ddarllen darn o'r Ysgrhythur, holi arno a gorffen trwy ganu anthem. Gwyddai'r aelodau eu Beibl bron cystal â'u hofffeiriaid!. Doedd dim

gohirio Calan Hen i fod,, hyd yn oed yng nghanol eira mawr.

Bu un digwyddiad yn y flwyddyn 1955 sydd wedi aros yng nghof pobl, ac mae'n cael ei gyfeirio ato fel "*blwyddyn y bont*". Roedd yna hen bont bren yn croesi'r afon Teifi, ond dymchwelodd hon i'r dŵr am fod gormod o bobl yn ceisio'i chroesi ar yr un pryd y flwyddyn honno.

CAFWYD dathliad yn y flwyddyn 1983 i gofnodi'r ŵyl yn gant a hanner ers ei sefydlu. Hir oes eto i ddathlu'r Hen Galan trwy gynnal Gŵyl Calan Hen.



BYW Y BEIBL

DARLLENIADAU



BYW Y BEIBL

Mis Ionawr	Darlenniad
Wythnos 1	Mathew 25: 31-46
Wythnos 2	Marc 1: 4-11
Wythnos 3	Ioan 1:43-51
Wythnos 4	Marc 1:14-20

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

Y PARCHEDIG W J a GWENDA EDWARDS

ELUNED MADDOX

YR ATHRO DESMOND A NANSI HAYES

a

DI-ENW

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



GWASANAETH NADOLIG CARTREF PLAS-Y-DDERWEN



Eirlys Jones...

GWASANAETH NADOLIG CARTREF PLAS-Y-DDERWEN

Dydd Gwener – 7 Rhagfyr 2018



MAE gwreiddiau'r Cracyr Nadolig yn mynd yn ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ond pery'n boblogaidd o hyd mewn partion dros yr Ŵyl. Mae tynnu cracyr yn dal i gipio diddordeb plant ac oedolion fel ei gilydd a phawb yn edrych ymlaen i weld beth sydd ynddo. Ond tynnu cymariaethau rhwng y cracyr ac agweddau ar Ŵyl y Geni wnaeth ein Gweinidog yng Ngwasanaeth Nadolig



Plas-y-dderwen.

Mae clec y cracyr wrth ei dynnu'n gallu codi arswyd ac yn ein hatgoffa o ofn y bugeiliaid ac ymddangosiad yr angylion liw nos. Neges oedd yn y cracyr gwreiddiol ac nid jôc fel heddiw a derbyniodd y bugeiliaid y neges am Iesu'n llawen. Mae'r anrheg yn y cracyr wedyn yn ein hatgoffa o anrhegion y doethion gynt – aur, thus a myr. Ac mae'r het yn y cracyr yn gallu bod yn symbol o goron gan ein hatgoffa o Iesu, Grist, drwy gariad Duw, yn



Frenin y Brenhinoedd ac yn haeddu'i foli a'i anrhydeddu am byth bythoedd!



Cawsom wrando ar ddarlenniadau o'r Beibl, cymryd rhan mewn gweddïau a chanu carolau. Braf oedd gweld rhai o aelodau'r Ofalaeth ac eglwysy eraill wedi ymuno â ni ynghyd â chyfeillion a

theuluoedd trigolion y Cartref. Ac roedd siwmpwr liwgar ambell un yn destun rhyfeddod!

MWYNHAWYD paned a briwgacs a sgwrs ar y diwedd, diolch i staff y Cartref,

APÊL ANRHEGION NADOLIG CYNGOR SIR GÂR

O wefan Newyddion BBC.

16 Rhagfyr 2018 (y bore ar ôl i'r Ofalaeth gyflwyno'i anrhegion Nadolig i'r apel hon)

MAE apêl arbennig ar gyfer plant difreintiedig yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd o 40% yn y galw am anrhegion Nadolig eleni. Yn ôl trefnwyr Apêl Teganau Nadolig Sir Gâr mae hynny'n rhannol oherwydd tldi a phryder rhai am y drefn budd-daliadau newydd, Credyd Cynhwysol. Bu'n rhaid ymestyn y dyddiad cau a gwneud apêl funud olaf er mwyn casglu 1,000 o anrhegion ychwanegol.



O ran yr apêl dywedodd Marie Griffiths: *Mae yna gynnydd mawr wedi bod yn y nifer sy'n cael eu henwebu gan ysgolion, gweithwyr cymdeithasol a chyrff eraill. Mae'n naid fawr ar y llynedd, mae yna blant ar ein stepen ddrws na fydd yn cael anrheg. Rydym yn aml yn meddwl am bobl sy heb fwyd yr adeg yma o'r flwyddyn, ond rydym yn anghofio am yr ifanc a'u bod nhw'n gorfod mynd*



heb anrhegion Yn ogystal â theganau a hamperi bwyd i dros 200 o deuluoedd, mae'r apêl hefyd wed bod yn paratoi bagiau hylendid neu wellbeing bag, Am y tro cyntaf eleni bydd y bagiau yma'n cynnwys pad ar gyfer misglwyf, ac rydym yn cydnabod fod prinder arian yn effeithio ar iechyd personol pobl ifanc.

Cafodd Apêl Teganau Nadolig Sir Gâr ei sefydlu yn 2011 ac mae nifer yr anrhegion sy'n cael eu casglu a'r galw amdanynt wedi cynyddu bob blwyddyn.

BRAINT ein Gofalaeth unwaith eto eleni oedd cael cyflwyno rhoddion i'r Apêl, fel y gwelir yn y llun. Mae'n diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd.



‘Agor y Gair’



*Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin*

Boreau Mercher 27 Chwefror a 6, 13, 20 Mawrth 2019

11.00 tan 12.00

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a’r Parchedig Beti-Wyn James

Croeso cynnes iawn i bawb

Manylion pellach

☎01267 237696 ☎01267 236658

LANSIO APÊL MADAGASCAR



yn ystod

**Cwrdd Plant a Phobl Ifainc
cynta’r flwyddyn newydd**

Bore Sul 13 Ionawr 2019

CWRDD EGLWYS

i gyflwyno

POLISI DIOGELU DATA’R PRIORDY

Bore Sul, 13 Ionawr 2019 ar ôl yr Oedfa



HWYL DROS YR WYL!

CWIS Y DINASOEDD – PA RAI YDYN NHW?

Atebion

**1. Las Vegas 2. Paris 3 Llundain 4 Jerwsalem 5 Efrog Newydd
6 Caerdydd 7 Dubai**

Diolch i Gareth Gravell am y gwaith paratoi

Gareth Gravell...

Y Gymdeithas

AR Nos Iau 6 Rhagfyr 2018 cynhaliwyd y trydydd cyfarfod yng nghalendr y Gymdeithas pan ymunon ni â Chymdeithas y Tair Eglwys yn y Tabernacl i wrando ar sgwrs gan Alun Harries, Clerc Cyngor Tref Caerfyrddin. yn dilyn cyflwyniad gan y Parchedig Peter Cutts a cherdd Nadoligaidd gan Wendy Jenkins (Talog).



Yn enedigol o ogledd Sir Benfro ymunodd Alun â'r heddlu ym 1982 a



gwasanaethu yn ystod ei yrfa yn Nyfed-Powys, gan gynnwys dwy flynedd yn y Swyddfa Gartref yn Llundain, cyn ymddeol yn 2012, ar ôl cyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. Ond nid oedd ymddeol yn apelio mewn gwirionedd a dechreuodd edrych am waith arall. A dyma wahoddiad mewn byr amser yn dod oddi wrth gydweithiwr iddo yn yr heddlu i ymuno â chwmni adeiladu *Dawnus* yn Sierra Leone.

Sefydlwyd *Dawnus* yn 2002 ac yn 2007 cynigwyd gwaith i'r cwmni yn Senegal a Sierra Leone yng

Ngorllewin Affrica i ailadeiladu'r strwythur trafnidiaeth - heolydd a rheilffyrdd yn benodol - wedi'r rhyfel Cartref rhwng 1991 a 2002.

Arwyddair y cwmni yw "*A talent for construction*" sy'n adlewyrchu cefndir Cymreig y cwmni o Abertawe.

Cynigiwyd swydd i Alun fod yn gyfrifol am ochr weinyddol y cwmni yn Sierra Leone. Roedd y cwmni'n cyflogi dros ddwy fil o weithwyr lleol ynghyd â gweithwyr o Ewrop, Ynysoedd y Ffilipi a Seland Newydd. Profodd agwedd newydd ar gyflogaeth, sef bod gweithwyr ym myd adeiladu'n aros am gyfnodau byr, chwe mis fel rheol, cyn symud i ran arall o'r byd, Roedd hynny mor wahanol i waith plismona yn ôl yng Nghymru!

Profodd hefyd wahaniaeth arall, sef gonestrwydd y bobl leol a chydweithwyr a oedd yn barod iawn i ddweud eu barn amdanoch. Doedd dim cymaint o ddibyniaeth ar gywirdeb gwleidyddol. '*Dweud hi fel y mae*' ys dywed yr hen ystrydeb!!

Gwlad fach yw Sierra Leone, tua dwywaith maint Cymru gyda rhyw 9 miliwn o boblogaeth, wedi'i hamgylchynu gan Gini a Liberia. Dyma'r tro cyntaf iddo ymweld â Gorllewin Affrica. Roedd hi'n ardal hollol unigryw ac yn brofiad gwahanol iawn iddo.

Mae cefndir trist iawn i Sierra Leone oherwydd y rhyfel cartref creulon a gwaedlyd rhwng 1991 a 2002 pan laddwyd dros 600,000. Roedd hyn yn cynnig perspectif arbennig iawn i Alun gan ei fod yn awr yn gweithio gyda chyn ymladdwyr rhyddid a rhai oedd wedi colli aelodau o'u teuluoedd o ganlyniad i'r rhyfel. Soniodd am yr elfen gref o faddeuant oedd yn perthyn i'r bobl – eu bod nhw'n fodlon anghofio'r casineb er mwyn edrych at y dyfodol. Gwers bwysig felly.

Roedd cwmni Dawnus, ar wahân i adeiladu heolydd a rheilffyrdd, yn mwyngloddio haearn yn benodol. Roedd yn fusnes proffidiol gan fod mwyn haearn yn ddefnydd pwysig ac yn dod ag incwm da i'r wlad gyda'r rhan fwyaf ohono'n cael ei allforio i Tsieina. Er mwyn diogelu'r incwm cedwid golwg barcud ar sut roedd pris mwyn haearn yn codi a disgyn dros y flwyddyn.



Byddai Alun yn gweithio ar ffurf rota – chwe wythnos yn Sierra Leone ac wythnos gartref. Roedd yn gweithio'n agos iawn â Rheolwr Cyffredinol Adran Ryngwladol Cwmni Dawnus, sef Andy Peters, gŵr o Gaerfyrddin sy bellach yn byw yn Sir Benfro.

Roedd un agwedd arbennig o heriol ar swydd Alun, sef ceisio gwella ymddygiad nifer o'r gweithwyr. Roedd yn ffodus fod ganddo gefndir yn yr heddlu er mwyn mynd i'r afael â'r dasg hon. Bu'n rhaid iddo ddiswyddo rhai gweithwyr er mwyn cadw enw da y Cwmni. Elen llawer mwy pleserus oedd ymweld â'r ysgolion lleol i ddangos cynlluniau'r cwmni a chreu perthynas gyda'r disgyblion a'r athrawon.

Soniodd fod y trigolion yn bobl annwyl iawn ond oherwydd diffyg addysg doedden nhw ddim yn medru defnyddio'u talentau'n llawn. Roedd nifer o'r oedolion, er enghraifft, yn methu darllen o gwbl, gan wneud cyfathrebu'n anodd. Roedd y gweithwyr lleol yn cymryd ei hawliau o ddifrif a gwaith digon anodd oedd cadw'r ddisgl yn wastad ac osgoi terfysg.

Yn anffodus, doedd y gweithwyr ddim yn ddigon ymwybodol o faterion lechyd a Diogelwch a byddai damweiniau'n digwydd yn aml. Bu rhai damweiniau angheuol yn ystod ei gyfnod yno. Cafodd cyfaill iddo'i ladd wrth deithio i'r gwaith rhyw fore - digwyddiad trist ac anodd iawn.

Roedd afiechyd yno a'r haint oedd pawb yn ei ofni oedd malaria. Rhaid oedd sicrhau bod digon o dabledi gwrth malaria ar gael gan ei fod yn haint llethol. Haint arall hefyd yn achosi gofid enfawr i nifer yn y wlad, sef ebola - haint ofnadwy a laddodd filoedd ar filoedd. Cyrhaeddodd Sierra Leone in 2014 ond erbyn hyn, diolch i'r drefn. mae camau meddygol wedi atal y clefyd.

Agoriad llygad i Alun hefyd oedd bod llwgrwobrwyo mor amlwg, hyd yn oed ymhlith yr heddlu – canlyniad efalla, i gyflogau isel plismyn yn y wlad.



Er hyn i gyd gwlad brydferth iawn yw Sierra Leone. Yn anffodus, roedd y bobl gyffredin yn byw mewn tlodi ofnadwy, heb ddŵr na thrydan mewn cytiau pren anghysurus iawn. Roedd yr heolydd yn wael a hen gerbydau'n teithio arnynt heb unrhyw reolau gyrru. Doedd dim sôn am yswiriant na threth ar un o'r cerbydau a byddai damweiniau'n digwydd yn aml.

Un o'r pethau eraill oedd yn peri ofn i Alun oedd y bywyd gwyllt - yn enwedig nadroedd - ac yn y wlad hon roedd y nadroedd mwyaf gwenwynig yn y byd.

CAFODD Alun brofiad unigryw wrth fyw a gweithio mewn gwlad mor wahanol i Gymru. Daeth yn amlwg drwy'r sgwrs a'r lluniau a welsom mor barod ydyn ni i gymryd ein gwasanaethau a'n safonau byw mor ganiataol. Ac wrth feddwl am y dioddefaint a'r diflastod sydd wedi dod i ran cymaint o'r trigolion yn Sierra Leone rydym yn dod i sylweddoli mor bwysig yw gwneud cymaint ag y medrwn i geisio gwella amodau byw'r bobl. Diolch i Alun Harries am ei sgwrs oleuedig a gwybodus. Cawsom gymdeithasu dros baned ar y diwedd. Talwyd y diolchiadau ar ein rhan ni oll gan Eirianwen Davies, Y Tabernacl.

Lluniau

Alun mewn cyfarfod cymunedol gyda'r aelod seneddol lleol

Alun a Wayne Morgan (o Abergwili) mewn cyfarfod gyda heddlu Sierra Leone

Papur Priordy'n cofio....

THOMAS BEVAN (1796?-1819)

BYDDWN yn lansio'n hymdrech ni yn y Priordy dros Apêl Madagascar 2018-19 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, sef

Bywyd i Bawb, y mis hwn.



Ym 1818 aeth y ddau genhadwr cyntaf o

Gymru i Fadagascar er mwyn darparu addysg elfennol i'r brodorion a chyflwyno Efengyl Crist iddynt. Eu henwau oedd Thomas Bevan a David

Jones (1797-1841) o Geredigion.



Yn ystod haf 2018 gwelwyd dathlu daucanmlwyddiant y digwyddiad yn y ddwy wlad. Yma yng Nghymru, bu dathliadau adeg cyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Aberaeron ym mis Mehefin ac yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd a'r Cylch ym mis Awst.

Ynys a chenedl yng Nghefnfor India ar arfordir Dwyrain Affrica yw Madagascar a hi yw'r ddegfed wlad dlotaf yn y byd. Cawn glywed mwy am y wlad a'r apêl i godi cyllid ar gyfer gwahanol brosiectau yno dros y misoedd nesaf yn y Priordy.

Ond beth am i ni ganolbwyntio'n sylw'r mis hwn ar un o'r arloeswyr cynnar, sef Thomas Bevan a hithau'n ddeucanmlynedd yn union i'r mis hwn ers iddo farw



Cafodd Thomas Bevan ei eni yng nghymdogaeth Neuadd-lwyd, Ceredigion tua 1796 a'i fagu ar aelwyd Gristnogol. Cafodd droedigaeth ar fferm Nantgwynfynydd pan oedd yn fachgen ifanc ym 1810. Ymaelododd yng eglwys Neuadd-lwyd lle roedd y **Dr Thomas Phillips** yn weinidog. Cafodd ei

annog ganddo i ddechrau pregethu ac aeth i Ysgol neu Academi

Neuadd-lwyd (dan Thomas Phillips) ac yna i goleg yn y Drenwydd cyn hyfforddi i fod yn genhadwr yng Ngholeg Cenhadol Gosport yn Swydd Hampshire.

Cynigiodd Bevan a David Jones eu hunain fel cenhadon, a chael eu dewis gan Gymdeithas Genhadol Llundain i fynd i genhadu i Fadagascar.

Cafodd Bevan ei ordeinio yn **Neuadd-lwyd** ym 1817 a thua'r un cyfnod priododd â Mary Bevan (née Jacob), Pen-yr-allt Wen.

Hwylodd Bevan a Jones am Fadagascar ar 9 Chwefror 1818 a chyrraedd Mauritius ar 3 Gorffennaf 1818. Gadawon nhw bum wythnos yn ddiweddarach a glanio yn Tamatave, Madagascar ar 18 Awst 1818.

Erbyn 8 Medi roedden nhw wedi cychwyn ar eu prosiect cyntaf a sefydlu ysgol yn

Mananarezo gyda chwech neu wyth o ddisgyblion ar y dechrau.

Dychwelodd y ddau i Mauritius i gasglu'u teulu a dod yn ôl i

Fadagascar. Ond daeth trasiedi fawr i'w rhan. Bu farw plentyn Bevan ar 20 Ionawr, bu yntau farw ar 30 Ionawr a bu ei wraig farw ar 3 Chwefror 1819.

Cawsant eu claddu ym mynwent

Tamatave. Bu **David Jones** hefyd yn wael iawn dan yr un dwymyn a chladdodd yntau'i wraig a'i blentyn yn Tamatave, ond goroesodd David Jones am sawl blwyddyn wedyn, gan wneud cyfraniad helaeth i'r achos.



Mae'n

dweud llawer am ddyfnder ffydd y cenhadon cynnar a'u sêl dros Gristnogaeth iddynt ddyfalbarhau er gwaethaf y siomedigaethau a ddaeth i'w rhan. Arhosodd David Jones a chyrrhaeddodd cenhadwr arall yr ynys ym 1821, sef **David Griffiths** (1797-1863) un a anwyd yng Ngwynfe, Sir Gâr. Bu yntau'n ddiwyd iawn yn ymroi i'r maes cenhadol ac un o'i gyfraniadau mawr, gyda chymorth David Jones, fu gweithio ar gyfieithu'r Beibl i



Falagaseg a gafodd ei gyhoeddi ym 1835. Un arall o weithiau Griffiths oedd *Hanes Madagascar* (yn Gymraeg), a gyhoeddwyd wedi iddo ddychwelyd i Gymru ym 1842, sydd bellach wedi'i ailgyhoeddi ac mae'r manylion isod.

Cyfnod byr a dreuliodd Bevan ym Madagascar ond gwnaeth gyfraniad pwysig yn yr ymdrech i ddod â Christnogaeth i'r ynys gan arwain at sefydlu'r eglwys Gristnogol gyntaf yno a sicrhau'r ysgrythur yn yr iaith frodorol.

Enwodd Eglwys Iesu Grist ym Madagascar (FJKM) ysgol ar ôl



Bevan, sef Lycée FJKM Thomas Bevan Toamasina (Taratane) ac mae cofeb iddo yntau a David Jones yn Eglwys Ambatonakanga yn Antananarivo.

OND mae'n siŵr mai'r gofeb orau i Bevan a'r cenhadon eraill yw'r

ymroddiad a'r brwdfrydedd dros y ffydd Gristnogol sy'n parhau hyd heddiw ym Madagascar.



HANES MADAGASGAR gan David Griffiths

Gol. Elinor Wyn Reynolds

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg - Pris £10

Cofnod llygad-dyst cynhyrfus o hanes y cenhadon ym Madagascar 200 mlynedd yn ôl

Mae'r gyfrol ar gael mewn tair iaith, Cymraeg (y gwreiddiol), Saesneg, (addasiad Elenid Jones) a Malagasi (Miara Rabearisoa, sy'n byw ym Mhen-rhys). Dyma'r tro cyntaf i bobl F Madagascar gael darllen yr hanes yn eu hiaith eu hun.

CYDADDOLI YN YSTOD YR WYL

Bore Sul 16 Rhagfyr 2018 yng Nghana

Cynheuwyd y drydedd gannwyll ar y Dorch Adfent gan Wyn Tegryn Evans i arwyddo Gobaith. Seiliodd ein Gweinidog ei myfyrdod ar 9



Eseia lle mae'r proffwyd yn rhoi pwyslais ar y gobaith, y goleuni a'r llawenydd a ddaw atom drwy ddyfodiad Iesu, hyd yn oed ynghanol adfyd a diflasdod ein byd. A'r newyddion da yw y bydd awdurdod Duw drwy Iesu'n para hyd byth Cymerwyd rhan yn yr

oedfa hefyd gan Marlene Jones (Cana), Dr Eirian Thomas (Bancyfelin) ac Alun Charles (Y Priordy). Roedd Heather Williams wrth yr orga. Gwnaethpwyd y cyhoeddiadau gan Marlene Jones. Mwynhawyd paned a briwgacs gyda'n gilydd yn y Ffestri – diolch i garedigrwydd merched Cana. Talwyd y diolchiadau gan ein Gweinidog.

Bore Sul 23 Rhagfyr 2018 yn y Priordy

Cynhaliwyd Oedfa Llith a Charol yn y Ffestri i'n tywys yn ystyrllon at breseb Bethlehem. Roedd y seddau wedi'u had-drefnu'n ddau floc gyda'r rhesi'n wynebu'i

gilydd. Ar y ford rhwng y blociau gosodwyd Torch yr Adfent. Cynheuwyd y bedwaredd gannwyll ar y Dorch gan Llifon Evans i arwyddo rhodd arbennig Duw i ni sef Tangnefedd. Y



darllenwyr oedd Steffan Jones (Cana), Eleri James, Peter Hughes Griffiths, Philip Jones ac Eurwen Jones (Y Priordy). Yn ystod yr oedfa gwrandawyd ar ddatganiad hyfryd Ysgol Bro Myrddin o'r garol / *orwedd mewn preseb* sydd ar eu CD newydd, *Dathlu Deugain*.. Clywsom hefyd gan ein Gweinidog hanes *Stille Nacht* a gyfansoddwyd ddeucanmlynedd yn ôl i Noswyl Nadolig eleni cyn gwrandao ar y garol. Roedd Iwan Evans wrth y piano. Y cyhoeddwr oedd Graeth Gravell a'r casglyddion Jac Thomas ac Elis Jones. Bu'r oedfa'n gymorth i ni ryfeddu o'r newydd at wyrth Gŵyl y Geni. Diolch I wragedd y Priordy am ddarparu paned ar y diwedd.

Nos Sul, 23 Rhagfyr 2018 ym Mancyfelin

Awn i Fethlem oedd thema'r daith a'r oedfa gymunedol ym Mancyfelin. Dechreuodd y daith ger y Wenallt am chwech dan olau tortshys a bu oedi hwnt ac yma i wrando ar ddarlleniad, cydganu a gweddio, nes cyrraedd y capel. Braff oedd ymgynnull ar y ffordd y tu allan i gartref Haydn Thomas, un o selogion y capel, a chael ei gyfarch. Ar y daith cymerwyd rhan gan Delme Thomas, Heledd Griffiths, Gwyneth Stephens, Mair Jones, Angharad Earles, Moira Howells ac Emyr Vaughan. Yn y capel ei hunan roedd yr oedfa yng ngofal y Plant a'r Bobl Ifainc. Cymerwyd rhan gan Rhys Lewis Thomas



Emyr Waters, Gwawr Waters, Iestyn Thomas ac aelodau'r cyflwyniad arbennig i ddangos gwir ystyr y Nadolig, sef Hannah Harvey, Ffion Haf Howells, Rachel Howells, Amelia Thomas, Grace Thomas, George Thomas Cai Howells, Cai Thomas, Enlli Morgan-Davies ac Alfie Morgan-Davies. Roedd Carwen Howells wrth yr

organ. Ar ddiwedd yr oedfa cafwyd ymweliad gan Siôn Corn i anrhegu'r plant a mwynhawyd paned a briwgacs gyda'n gilydd. Diolch i wragedd Bancyfelin am baratoi ac i Gwmni Castell Howell am eu caredigrwydd yn rhoi'r briwgacs yn rhodd i'r capel. Ac unwaith eto eleni llwyddwyd i gael orig sych yn y pentref ar gyfer y daith!

Bore Nadolig, 25 Rhagfyr 2018 yn y Priordy

Unwaith eto eleni daeth nifer da ohonom, yn blant a phobl ifainc ac oedolion, at ein gilydd ar gyfer oedfa fer ar fore Nadolig am 9. Cynheuwyd y bumed gannwyll yng nghanol Torch yr Adfent gan ein Gweinidog i gynrychioli dyfodiad Iesu, Goleuni'r Byd, i'n plith. Cymerwyd rhan gan dair merch ifanc, sef Lleucu Edwards, Elin Wyn a Siwan Gwyn. Roedd Heather Williams wrth yr organ. Mae llawer o deithio'n digwydd adeg y Nadolig wrth i deuluoedd ddod at ei gilydd i ddathlu'r Wyl. Bu teithio hefyd y Nadolig cyntaf wrth i Mair a Joseff adael Nasareth am Fethlehem ac yna'r angylion, y bugeiliaid a'r

doethion yn ymuno â nhw, A chawsom ein hannog gan ein Gweinidog i gyd-deithio o'r newydd yn ein meddwl a'n dychymyg gyda'r angylion, y bugeiliaid a'r doethion wrth i ni gofio am Iesu Grist yn ei bresesb a dathlu dyfodiad y 'gair a wnaethpwyd yn gnawd'. Hyfryd oedd cyfarch ein gilydd wrth adael y capel a derbyn mat bach lliwgar gan ein Gweinidog yn cynnwys y geiriau 'O llawenhawn! Daeth Crist i'n plith' a'r adnodau yn Efengyl Luc: Pennod 2:1-14 'Ond dyma'r angel yn dweud wrthyn nhw, 'Peidiwch bod ofn. Mae geni newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn.....'. A chyn mynd adre, galwodd rhai i gyfarch ein cyfeillion o Syria yn y Tŷ Capel ar y bore arbennig hwn.



Bore Sul 31 Rhagfyr 2018 ym Mancyfelin

Cawsom gyfle ar ddechrau'r oedfa i fwrw trem yn ôl ar weithgareddau eglwysïr Ofalaeth yn ystod 2018 drwy gyfrwng PwyntPwer a rhyfeddu'n wir at ehangder ac amrywiaeth yr hyn a gafodd ei gyflawni. Dilynwyd hynny gan weddi o ddiolchgarwch. Roedd neges ein Gweinidog wedi'i hysbrydoli gan ddarn yn Llyfr y Barnwyr lle mae Manoa a'i wraig yn ceisio cyfarwyddyd gan Dduw ynghylch beth i'w wneud â'r mab a oedd i'w eni iddynt, sef Samson. Mae'n fater hefyd y dylen ni'i ystyried mewn perthynas â Iesu. Ai gwrthod Iesu a chael



gwared arno a wnawn neu'n hytrach ei dderbyn a'i wasanaethu a thrwy hynny wasanaethu'n gilydd mewn cariad? Diolch am neges amserol yn ysgogi'r meddwl ar drothwy blwyddyn newydd. Roedd y cyhoeddiadau yng

ngofal Joanne Richards a Margaret Evans wrth yr organ.

Diolch yn fawr iawn i'n Gweinidog unwaith eto am drefnu Gŵyl arbennig o gyfoethog a llawn a bendithiol ar gyfer ein Gofalaeth.



MAE POB ATEB YN DECHRAU GYDA'R LLYTHYREN 'I'
Yr atebion i gyd yn y Beibl

1	I							
2	I							
3	I							
4	I							
5	I							
6	I							
7	I							
8	I							
9	I							
10	I							

Cliwiau

1	Planhigyn bychan y byddai tusw ohono'n cael ei ddefnyddio i daenellu'r gwaed mewn amrywiol seremonïau (Exodus 12)
2	Mab Sebedeus, un o brif ddisgyblion Iesu (Marc 3)
3	Y grefydd ____ (Galatiaid 1)
4	Cydio brigyn wrth foncyff pren arall nes peri i'r brigyn newydd dyfu a dwyn ffrwyth (Rhufeiniaid 11)
5	Mab Abraham a thad Jacob (Amos 7)
6	Gwyrddlas, byw, ffres (Salm 92)
7	Mab i Abraham o Hagar, ei gaethforwyn (Genesis 16)
8	Jwdas fab Simon --- (Ioan 6)
9	Un o feibion Saul (1 Samel 14)
10	Tref yn rhanbarth Sabulon (Josua 19)

Rhowch gynnig arni! Atebion yn Rhifyn Chwefror

MAE BETHLEHEM YN GALW



Tudalen Ieuenctid@Priordy

Llongyfarchiadau i chi i
gyd am eich gwaith yn y
Gwasanaeth Nadolig.

Ardderchog! Mae
adroddiad llawn a nifer o
luniau mewn man arall yn
y Papur hwn.



Dyddiadur	Ysgol Sul	PIP
Ionawr 6	Oedfa'r Flwyddyn Newydd	Oedfa'r Flwyddyn Newydd
Ionawr 13	Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc	Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc
Ionawr 20	Ysgol Sul	PIP i aros yn yr oedfa
Ionawr 27	Ysgol Sul	PIP yn cwrdd



MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL
SIR GÂR

Cofiwch am wefan MIC

<http://micsirgar.org>

Pêl-Droed a Phêl-Rwyd MIC



Pob lwc i bawb



Coeden a Mwnci!

Ydy chi'n gwybod rhywbeth am y



goeden
hon neu am y mwnci
hwn?

Dewch i'r
gwasanaeth ar
lonawr 13 i
ddysgu
mwy!



Cofiwch am wefan <http://beibl.net>

**Ydych chi wedi
llawrlwytho'r ap?
Hwyl am y tro**

Beti-Wyn



MAE BETHLEHEM YN GALW



Chris Lloyd...

Mae Bethlehem yn galw

WEL! Am ddechrau gwyhych i ddathliadau'r Wyl. Unwaith eto eleni cawsom sgript anhygoel arall gan ein Gweinidog wedi'i berfformio'n wych gan blant a phobl ifanc y Priordy.



Hyfrydwch i mi oedd gweld parodwydd tri o fechgyn hŷn PIP mor barod i'n harwain yn ddefosiynol ar ddechrau'n gwasanaeth trwy ddarllen, gweddio a chyhoeddi ein hemyn cyntaf a ganwyd i gyfeiliant Eira Phillips ar yr organ.

Ymlaen wedyn at leisiau swynol y Parti Merched a hyfforddwyd gan Nicki Roderick ond heddiw'n cael eu harwain gan Llinos Roberts gyda Catrin Jones yn cyfeilio.

Yn ystod cyflwyniad PIP daeth lluo o atgofion yn ôl i'r cof am y diwrnod arbennig hwnnw pan oedd pawb ynghyd y tu allan i'r Capel ar ôl y gwasanaeth er mwyn cael yr anrhydedd o wyl Geraint Thomas a'r beicwyr eraill yn gwibio heibio..am y te a'r cacennau a'r sbri o gymdeithasu! Cawsom hwyl yn gwyllo'r cyflwyniad a'r ffaith bod ambell berson wedi cael siom o golli'r beicwyr gan eu bod wedi mynd i'r tŷ bach! Perfformiwyd datganiad 'RAP' arbennig eleni eto'n disgrifio siom y rhai a oedd wedi colli'r beicwyr. Yna, tynnwyd ein sylw'n gelfydd iawn at y ffaith bod rhai pobl yn colli pethau pwysig mewn bywyd oherwydd eu bod yn meddwl bod pethau eraill yn bwysicach. Clywsom gan un o aelodau hŷn PIP am y ffaith y gallai'r Bugelliaid fod wedi colli'r daith i Fethlehem pe baen nhw wedi penderfynu aros ar y mynyddoedd gyda'r defaid yn hytrach na



gwrando ar yr angylion. Yn yr un modd gallai'r doethion fod wedi colli'r daith i Fethlehem petaen nhw wedi dewis edrych ar ôl eu hunain yn gyntaf. Yna gofynnwyd cwestiwn pwysig iawn, sef tybed faint o bobl sy'n colli gwir ystyr yr Ŵyl oherwydd eu bod yn rhoi pethau eraill o flaen y neges bwysig mai dathlu geni Iesu sy'n gwneud y Nadolig. Ar ddiwedd eu cyflwyniad cawsom ddatganiad hyfryd o'r garol '*Tua Bethlem Dref*' gan PIP gyda Catrin Jones yn cyfeilio ar y piano ac Iwan Evans ar y sacsoffon.

Cawsom ddatganiad hyfryd wedyn o garol Plygain gan y Parti Bechgyn dan arweiniad Meinir Lloyd gyda Heather Williams wrth y piano.



Cafwyd cyflwyniad bywiog gan blant hŷn yr Ysgol Sul wrth iddynt feddwl am greu pwdin Nadolig arbennig i Beti-Wyn. Eglurwyd i ni ba gynhwysion oedd eu hangen ynghyd â rhai ffeithiau hanesyddol am y pwdin. Daeth atgofion melys yn ôl i'r cof ohonof i a'm brawd yn ceisio bod y cyntaf i ddod o hyd i'r trysor, sef 'pisyn

tair' a fyddai wedi cael ei roi yn ein pwdin ni gartref.

Arweiniodd hyn yn slic iawn i'r ffaith bod y Bugeiliaid wedi dod o hyd i drysor yn y preseb adeg y Nadolig cyntaf. Eglurodd y plant i ni fod y celyn ar ben y pwdin yn ein hatgoffa o'r goron ddrain a wisgodd Iesu ar y groes, a'r aeron coch o'i waed. Soniwyd hefyd am y ffaith ei bod hi'n arferiad i roi 12 o gyrens yn y cymysgedd sy'n ein hatgoffa am 12 disgybli Iesu. Perfformiwyd RAP enwog y Priordy yn arbennig gan y criw yma hefyd.

Yn nesaf daeth 'Y Priordy's Bach' i'n swyno ni trwy ganu a chwarae offerynnau. Clywsom ddatganiadau hyfryd o '*Sêr Y Nos Yn Gwenu*' a '*Ting a ling ling*' a'r unig beth y gallaf ei ddweud yw bod band, parti merched a pharti bechgyn Y Priordy mewn dwylo diogel ar gyfer y dyfodol! Hyfryd blantos.



Ymlaen wedyn i Fethlehem wrth i blant yr Ysgol Sul gyflwyno Stori'r Geni yn eu ffordd hollol naturiol gydag aelod o PIP yn darllen hanes y Brenin Herod er mwyn clymu'r stori ynghyd cyn i ni gael ein swyno gan yr holl gast yn canu ar y diwedd.

Fyddden ni ddim wedi clywed yr hyn roedd y cast yn ei ddweud a'i ganu oni bai am gymorth gwerthfawr blynyddol Ian Willaims a'i brentis hynod abl Sulwyn Thomas! Diolch o galon iddynt eleni eto.



CLOD i chi i gyd yn hyfforddwyr, cyfeilyddion, plant, pobl ifanc ac wrth gwrs ein Gweinidog dawnus iawn. Campwaith eleni eto yn ein hatgoffa o wir ystyr y Nadolig. Diolch o galon a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN

Bore Gwener – 12 Ebrill 2019 – 11 o'r gloch

gyda'n

Gweinidog



SUL GWEDDI MIC (MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL)

Cynhelir Sul Gweddi blynyddol MIC ar 13 Ionawr 2019.

Gofynnir i bawb gofio am waith y Fenter yn eu gweddiau ar y diwrnod hwnnw, os gwelwch yn dda.



CLWB GWYLIAU MIC

Hanner Tymor Chwefror a Gwyliau'r Pasg.

25-27 Chwefror 2019

Neuadd Pontyberem

15-17 Ebrill 2019

Neuadd Penygroes

10:30 - 12:30. Mynediad am ddim.

gemau; cystadlaethau; gwobrau; crefft; hwyl a sbri.

Croeso cynnes i blant B 2– 6.



CHWARAEON MIC

Dydd Sadwrn 19 Ionawr 2019

Canolfan Hamdden Caerfyrddin.

Pêl-droed / Pêl-rwyd.

Cynradd ac Uwchradd

YSGRIFENNU DROS HAWLIAU DYNOL

Mae aelodau a chefnogwyr Amnest Rhyngwladol ar draws y byd yn brwydro dros hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol mewn amrywiol ffordd. Mae ysgrifennu llythyrau'n un o brif strategaethau'r mudiad a phob mis Rhagfyr mae'r cefnogwyr yn ysgrifennu miliynau ohonynt dros y rhai y mae eu hawliau dynol sylfaenol dan fygythiad. Ac yn ystod yr oedfa ar Sul cyntaf yr Adfent, 2 Rhagfyr 2018, daeth cyfle i ni yn y Priordy fod yn rhan o'r ymgyrch fawr hon. Ar ôl i Eleri Thomas oleuo'r gannwyll gyntaf ar ein Torch Adfent, sef kannwyll Gobaith, a'r weddi gan ein Gweinidog aethpwyd ati i gwblhau cardiau ar ran dau berson y mae eu sefylla'n destun gofid.



Nonhle Mbuthuma

Mae Nonhle'n arwain ymgyrch heddychlon yn erbyn cynlluniau i gloddio titanium ar dir cyndadol ei chymuned ar Benrhyn Dwyreiniol De Affrica. Mae hyn wedi arwain at ei bygwith a'i haflonyddu a doddi ei bywyd mewn perygl. Mae hi'n perthyn i gymuned traddodiadol Amadiba ac mae tua 5,000 o'r trigolion yn wynebu cael eu troi allan o'u cartref a cholli'u bywoliaeth a'u ffordd o fyw os bydd *Mineral Resource Commodities* yn derbyn trwydded i gloddio'u tir. Cwblhawyd cerdyn at yr Arlywydd Cyril Ramaphosa yn erfyn arno i amddiffyn Nonhle ac archwilio'r bygythiadau yn ei herbyn.



Geraldine Chacón

Roedd Geraldine bob amser eisiau amddiffyn pobl eraill. Ar 1 Chwefror 2018, cafodd ei harestio gan swyddogion cudd-wybodaeth arfog yn Feneswela, Roedd hyn yn rhan o ymgyrch i syrthio'n drwm ar y rhai sy'n beirniadu'r llywodraeth a gweithredwyr hawliau dynol. Ar ôl treulio pedwar mis yn y carchar dan amodau difrifol, cafodd ei rhyddhau'n amodol. Ond mae'i hachos yn parhau i fod yn agored a dyw hi ddim yn gallu gadael y wlad. Gallai gael ei harestio o'r newydd unrhyw bryd. Cwblhawyd cerdyn yn erfyn ar y Twrnai Gwladol Tarek William Saab i gau'r achos yn erbyn Geraldine.



Meddyliwn am Nonhle Mbuthuma a Geraldine Chacón a phawb arall sy'n dioddef am sefyll dros hawliau dynol y Nadolig hwn. Gweddïwn hefyd y bydd ymdrechion Amnest Rhyngwladol dros bobl fel hyn yn dwyn ffrwyth.

DIOLCH YN FAWR

Casglwyd £361.22 at waith yr Ysgol Sul yn ystod Gwasanaeth Nadolig y Priordy. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd ac i Elis a Meinir Jones, Y Trysoryddion, am gadw'r cyfrifon,



RHAGHYSBYSIAD

CYMDEITHAS DDIWYLLIADOL
CAPEL HEOL AWST A SMYRNA

CYNGERDD CÔR MEIBION MACHYNLLETH
Nos Sadwrn, 12 Hydref 2019 – 7 o'r gloch
yn

Heol Awst

Elw at Uned Cancr y Fron, Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli

CANOLFAN GALW-I-MEWN CAPEL Y BEDYDDWYR SAESNEG

Casglwyd £180 at y Ganolfan uchod yn y Priordy ar Ddydd Sul, 2 Rhagfyr 2018 i gynorthwyo'r eglwys i baratoi Cinio Nadolig i anffodusion ein tref, Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysordd, am gadw'r cyfrifon.



Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 21-25 Ionawr 2019 - 10 y bore

Cynhelir cyfres o fyfyrddodau bob bore o Fore Llun 21 Ionawr 2019 tan Fore Gwener 25 Ionawr 2019 yn y Capel Wesle (y tu ôl i Boots) ac eithrio'r bore Llun, pan fydd y cwrdd yn Eglwys y Bedyddwyr Saesneg, Heol Awst.

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?

Trowch at: cyfundeb.com



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

Y PRIORDY AC ADDYSG GYMRAEG

GYDAG Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin newydd dathlu'i phen-blwydd yn ddeugain oed yn 2018, diddorol yw sylwi cymaint fu cyfraniad Capel Y Priordy trwy'i aelodau at sefydlu addysg Gymraeg yn nhref Caerfyrddin.



Mae'r manylion hynny wedi'u cofnodi'n fanwl yn y llyfr *O'r fesen derwen a dyf*, sef Hanes Ysgol Gymraeg Caerfyrddin (Ysgol y Dderwen), 1955 – 1985, ac yn y bennod *Hanes Sefydlu Ysgol Bro Myrddin* yn y llyfr *Gorau Arf* a Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939 – 2000.



Mor bell yn ôl â 1946, ac yn dilyn cyfarfod cyhoeddus, anfonwyd llythyr ar ran y rhieni gan **Y Parchedig W B Griffiths** (Cadeirydd a Gweinidog Y Priordy) at yr Gweinidog Addysg yn Llundain yn dangos yn glir bod galw am ysgol gynradd Gymraeg yn nhref Caerfyrddin. Penderfynodd y Pwyllgor Addysg mai buddiol fyddai cael ysgol Gymraeg ym 1947, ond methiant fu chwilio am adeilad addas, gan gynnwys Neuadd Dewi Sant – adeilad presennol

Clwb Y Cwins ger Parc y Dref.

Ym 1951 derbyniodd **Y Parchedig Cyril Williams** alwad i Gapel Y Priordy o Radnor Walk yn Llundain gan ei fod yn dymuno rhoi addysg Gymraeg i'w ddau fab. (Mae'i weddw Mrs Irene Williams yn dal yn aelod yn Y Priordy). Cafodd siom wrth weld Seisnigrwydd addysg y dref.



Felly, ar 28 Mai 1954 cyfarfu nifer o gynrychiolwyr capeli'r dref yn Festri Capel Y Priordy, ac fe drefnwyd cyfarfod cyhoeddus ar 1 Gorffennaf 1954 yn neuadd y YMCA lleol. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw fe anfonodd yr Awdurdod Addysg gylchlythyr at y rhieni. Mae'n amlwg i'r Awdurdod gael cryn ysgytwad gyda'r canlyniad, a sefydlwyd ysgol Gymraeg ar ffurf un dosbarth yn Ysgol y Merched Pentrepoeth, ac ar 3 Ionawr 1955 agorwyd Ysgol Gymraeg Caerfyrddin yn cynnwys un ar hugain o blant saith ac wyth oed.

Ar 9 Ionawr 1956 sefydlwyd Adran y Babanod, a daeth **Miss Enid Ann Jones** (mam Catrin Heledd) yn athrawes ar y dosbarth cyntaf hwnnw. Bu Enid yn athrawes yn Ysgol y Dderwen ar hyd ei hoes gan wneud cyfraniad aruthrol i dwf addysg Gymraeg yn y dref. Yng Nghapel Y Priordy y cynhaliwyd gwasanaethau Gŵyl Dewi a chyfarfodydd eraill yr ysgol am flynyddoedd lawer.



Mewn cyfarfod arall yn festri'r Priordy ar 15 Mawrth 1956 sefydlwyd Cymdeithas Rhieni Ysgol Gymraeg Caerfyrddin gyda'r Parchedig Cyril Williams yn cadeirio. Cyfarfu'r pwyllgor yn dilyn hynny yn 'Yr Elmwydd', Erw Hir - sef Mans Y Priordy ar y pryd. Y Parchedig W B Griffiths oedd Cadeirydd sefydlu'r Ysgol Feithrin Gymraeg wedyn ym 1964 a bu cyfraniad aelodau Capel Y Priordy fel athrawon a chynorthwyywyr yr Ysgol a'r Cylch Meithrin hyd y dydd heddiw'n amlwg iawn.

Mae rhestr o swyddogion Cymdeithas Rhieni Ysgol y Dderwen ers y cychwyn yn y llyfr *O'r fesen derwen a dyf ac* mae'n frith o enwau aelodau'r Priordy.



Ifan Dalis Davies a **Cenwyn Rees** (aelodau yn Y Priordy), a gofnododd *Hanes Sefydlu Ysgol Bro Myrddin* yn y llyfr *Gorau Arf*. Mae Ifan yn sôn am yr ymdrechion cynnar yng nghanol y chwedegau pan

wnaeth Siân ac yntau,

T James Jones ac Eirlys Jones a chyfeillion eraill arwain ymgyrch gan Bwyllgor Llywio Ysgol Uwchradd Ddwyieithog Caerfyrddin a'r Cylch. Anfonodd y Pwyllgor holiadur at y rhieni yn ardal Caerfyrddin. Fe arwyddodd rhieni 1,207 o blant dros sefydlu Ysgol Uwchradd Ddwyieithog a 1,081 yn erbyn. Er i'r frwydr barhau tan 1973 fe fethodd cynnig yn y Pwyllgor Addysg i sefydlu ysgol uwchradd ddwyieithog o 39 pleidlais i 9. Roedd y gwrthwynebu'n parhau. Meddai Ifan, "*Pan ddaeth Eisteddfod Genedlaethol Cymru i Gaerfyrddin ym 1974 yr oedd saith mlynedd o ymgyrchu dros addysg uwchradd Gymraeg wedi methu â dwyn unrhyw ffrwyth.*"



'Ailgydio' yw pennawd adroddiad Cenwyn Rees yn y llyfr *Gorau Arf*, a dyfynnaf o'i baragraff cyntaf, "*Rwy'n cofio'r dydd yn iawn; bore Sul ydoedd ym 1974 a chriw bach ohonom yn sgwrsio tu allan i gapel y*

Priordy ar ôl gwasanaeth y bore, Dyma Peter Hughes Griffiths yn awgrymu, yn sgil penderfyniad Pwyllgor Addysg Dyfed i ad-drefnu ysgolion uwchradd yn y cylch, fod cyfle gennym i ddwyn y maen i'r wal ynglŷn ag addysg uwchradd ddwyieithog."

Fe aethpwyd ati'n syth i alw cyfarfod cyhoeddus ac yn hwnnw dewiswyd Pwyllgor Gweithredu yn cynnwys Peter Hughes Griffiths, Cenwyn Rees, Maldwyn Jones, Gareth Matthews, Malcolm Jones, Wynne Jenkins a Gwyneth Evans.

Do, fe gychwynnwyd ymgyrch arall yn cynnwys dwy elfen benodol, sef argyhoeddi aelodau Pwyllgor Addysg Cyngor Sir Dyfed ar y pryd, a rhieni plant y dalgylch. Ym Mehefin 1975 fe gylchlythyrwyd y rhieni gan yr Awdurdod Addysg ac fe drefnwyd taflenni a chyfarfodydd ar hyd a lled yr ardal i argyhoeddi'r rhieni gan yr ymgyrchwyr. Canolbwyntiwyd ar y cynghorwyr hefyd trwy lythron ac ymweliadau, ond pur amrywiol oedd yr ymateb! Roedd yr oriel yn orlawn yn Neuadd Y Sir ar ddydd y penderfyniad yn niwedd 1975, a mawr fu'r bonllfau pan gyhoeddwyd



canlyniad y bleidlais o gadarnhad bod ysgol ddwyieithog i'w sefydlu yng Ngaerfyrddin. Mae'r gweddill yn rhan o hanes!

Yn Hydref 1977 penodwyd Mr Gareth Evans yn Brifathro gan gychwyn ar ei waith yn Ionawr 1978. Daeth yr ysgol i fodolaeth ym Medi 1978 yn adeilad yr hen Ysgol Ramadeg gyda tair ffrwd yn y



flwyddyn gyntaf a dwy ffrwd yr un ym

mlynnyddoedd 2 a 3. **Mr Wyn Jenkins a Mrs Beti**

Hughes oedd y ddau ddirprwy, a bu nifer o aelodau'r Priordy'n athrawon yn yr ysgol o'r pryd hwnnw hyd y dydd heddiw. Mae hynny'n wir am lywodraethwyr yr ysgol hefyd ac ar hyn o bryd ein gweinidog Y **Parchedig. Beti-Wyn James** yw Cadeirydd y Corff Llywodraethu.



DIM ond darlun cryno iawn yw hwn o gynnwys y manylion sydd yn y ddau lyfr, ond mae'n dangos yn glir ran allweddol aelodau Capel Y Priordy'n sefydlu

a hyrwyddo addysg Gymraeg yn nhref Caerfyrddin. Ymfalchiwn yn fawr yn hynny.

MAE BETHLEHEM YN GALW



PLYGAIN 2018

Nos Sul 16 Rhagfyr 2018

MAE rhai o draddodiadau Gŵyl y Nadolig yng Nghymru wedi hen ddarfod ond diolch fod y Plygain, gwasanaeth sy'n gwbl unigryw i'n cenedl ni, yn dal i gael ei gynnal mewn rhai rhannau o'n gwlad, fel yma yng Nghaerfyrddin dan nawdd Merched y Wawr. Roedd Eglwys Crist yn llawn hyd yr ymylon ar gyfer gwasanaeth eleni a hynny'n helpu i greu awyrgylch a chynhesrwydd arbennig i'r noson.



Gosododd Mared Owen naws priodol i'r gyfeillach gyda'i datganiad hyfryd o'r hen garol Gymraeg *Ar fore Dydd Nadolig* cyn i'r Parchedig Ganon Ganghellor y Dr Patrick Thomas estyn galwad i addoli.



Cafwyd eitemau amrywiol a diddorol ar gân gan Feibion y Priordy, Côr Tonic, Eglwys Crist, Meibion Heol Awst, Triawd – Mared, Sara a Catrin, Capel Penuel, Côr Meibion Caerfyrddin, Capel Elim, Merched y Priordy, Capel y Tabernacl, Capel y Babell Zion Newydd a Chôr Seingar ynghyd â cherddi gan Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones yn cynrychioli'r Ysgol Farddol. Ymunodd y gynulleidfa i ganu tair carol – *Wele, cawsom y Meseia, Suai'r gwynt, suai'r gwynt a Daeth Crist i'n plith, O! llawenhawn*. Wyn Maskell oedd wrth yr organ. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parchedig Delyth Richards,

Aeth yr arian a godwyd drwy werthiant y rhaglenni at Gymorth Cristnogol.

Roedd hi'n amlwg fod pawb wedi mwynhau'r gwasanaeth a derbyn bendith fawr. Mae'n dyled yn fawr i bawb a gymerodd ran ac am gynnal safon arbennig unwaith eto ac i Ferched y Wawr am drefnu'r cyfan.

MAE'N anodd credu mai dim ond y dynion a fyddai'n mynd i'r Plygain i ganu yn yr hen amser, tua'r 17eg ganrif, tra oedd y merched yn aros gartref i goginio a gwneud cyflaith! Ond diolch byth, erbyn y 19eg ganrif, roedd y merched a'r plant yn mynd i'r Plygain yn ogystal ac rydyn ninnau'n parhau i elwa o'r newid hwn hyd heddiw!



**Cerdd gan Tudur Dylan Jones a
ddarllenwyd ganddo yng Ngwasanaeth y
Plygain**

Dau Nadolig

*(Wrth weld tri Siôn Corn yn y dre yr
un dydd, a phlant yn ciwio i'w gweld)*

Drwy'r gaea', sawl Santa sydd

a'r ciw yn giw tragywydd?

Yn rheg dan faich anrhegion

o siop i siop, pa sawl Siôn?

Ac wedyn sawl diawl bach dig

yn estyn am farf lastig?!

Ond yng ngwynder y seren

daw munudau'r barfau i ben:

tawelwch yn y tiliau

a chyffro'r gwario ar gau,

tawelwch tynerwch nos,

tynerwch plant yn aros...

A hwyl Noswyl yn nesu,

un Santa a'i wên dros ein tŷ

ddaw'n go iawn, yn ddyn i gyd,

hynafol, plentyn hefyd,

a than y seren heno

rhyw un Siôn Corn sy'n y co'.



NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

GOLEUO'R GOEDEN AR Y MAES

Bob blwyddyn ar drothwy'r Nadolig, bydd eglwysi'r dre fel rheol yn cyflwyno drama'r Nadolig wrth i'r goeden fawr gael ei goleuo ar y maes. Ond eleni, trefnwyd digwyddiad gwahanol – cyflwyniad byr a charol gan blant a



phobl ifanc yr eglwysi. Dyma rai o blant a phobl ifanc Caersalem, Noddfa, Seilo a Salem yn canu.



COEDEN YR ADFENT.

Yn ystod Suliau tymor yr Adfent rhoddwyd i'r plant amlinelliad o gannwyll gan ofyn iddynt chwilio am adnod neu eiriau o gân neu emyn i'w rhoi yn y gannwyll i'w gosod ar y goeden. Ar Sul cyntaf yr Adfent, GOBAITH oedd y gair a ddewiswyd, ar yr ail, CARIAD a'r trydydd LLAWENYDD.

CINIO BARA A CHAWS

Ar drydydd Sul yr Adfent roedd oedfa'r bore yng ngofal rhai o rieni'r plant. Yn dilyn yr oedfa



cafwyd cinio Bara a Chaws ac fe gyflwynwyd yr arian i Apêl Madagascar.

**Staff y gegin: Ffion,
Bethan Glyn a Rhian
Mair**

**Yr Eisteddiad cyntaf
yn mwynhau'r Bara a'r Caws**



TUDALEN BLAEN

*Rheswm y Dr Huw Michael dros ddewis
'Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn...'*

HWN oedd hoff emyn fy mam-gu, Mary Lloyd, Aberteifi. Rwy'n ei chofio'n ei ganu'n dawel bach iddi'i hunan wrth gerdded o gwmpas y tŷ pan oeddwn yn mynd ati i'w thŷ yn Feidrfa'r i gael cinio canol dydd pan oeddwn yn Ysgol Gynradd Aberteifi, a hefyd pan fuodd hi'n byw gyda ni yn ei



blynyddoedd diwethaf. Buodd hi a'i gŵr John Lloyd, yn cadw'r Tŷ Capel yng Nghapel Mair, Aberteifi, ar ôl i John Lloyd ymddeol hyd nes ei farw ym 1956 yn 76 oed. Treuliodd flynyddoedd yn gweithio ym mhwll glo'r

Onllwyn ger Castell-nedd gan deithio'n ôl i'r cartref yn Aberteifi mor aml ag y gallai. Rai blynyddoedd wedi iddo ymddeol cafodd ei ethol yn ddiakon yng Nghapel Mair ym 1951, a bu mam-gu'n aelod ffyddlon yno ar hyd ei hoes.

Brodor o Gippin, ger Llandudoch oedd John Lloyd, a mam-gu'n dod o deulu mawr fferm Llwyngwydd, Trewyddel. Mae'r ddau wedi'u claddu ym mynwent Brynbethel, Trewyddel.



MAE geiriau'r emyn hwn gan Moelwyn wedi aros yn fy nghof ers y dyddiau hynny yn yr ysgol gynradd.

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

NADOLIG: Y STORI



Diolch yn fawr iawn i bawb a fu ynghlwm wrth **Nadolig: Y Stori** yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg, Heol Awst, unwaith eto ym mis Rhagfyr 2018.


Mae'r data isod yn dangos yn eglur ba mor bwysig yw'r cynhyrchiad hwn yng nghalendr dathliadau'r Nadolig yng Ngaerfyrddin:

Diolch i Martin Dalling am y data:

Crynodeb	2018	2017	2016	2015	2014
Cyfanrif	1578	1616	1887	1746	1457
Ysgolion Saesneg	629	576	759	714	504
Cyhoedd (Saesneg)	100	164	201	197	326
Ysgolion Cymraeg	800	811	834	726	466
Cyhoedd (Cymraeg)	49	65	93	109	161
Perfformiadau	25	23	25	25	26

Mae'r data ar gyfer perfformiadau ysgol yn cynnwys rhai aelodau o'r cyhoedd

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH
STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS
OS GWELWCH YN DDA**

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY
Nos Fercher 6 Mawrth 2019 am 7 yn y Festri

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna
 rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
 os gwelwch yn dda**

**CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY A CANA A BLAENORIAID
 BANCYFELIN**
Nos Fercher, 20 Mawrth 2019 am 7 yn Festri'r Priordy



DRWS AGORED



FESTRI'R PRIORDY
BORE IAU 24 Ionawr 2019
Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11
Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN
CYRDDAU CHWARTER 2019
AR DDYDD IAU YM MHOB ACHOS



14 Mawrth 2019, (10.30am a 1.30pm)	Nebo Llanpumsaint
9 Mai 2019 (4.00pm a 7.00pm)	Y Priordy
12 Medi 2019 (4.00 a 7.00pm)	Henllan Amgoed
8 Tachwedd 2019 (10.30am a 1.30pm)	Hermon

Western Mail - Newyddion ? Journal – Newyddion ?
Y TYST – NEWYDDION DA!!!
50c y rhifyn!
Cysyllter â Sulwyn Thomas





DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Ionawr		Chwefror	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Sulwyn Thomas	Adrian Evans	Sulwyn Thomas	Adrian Evans



BLODAU



Ionawr	6	Ann Bowyer	Chwefror	3	Jaqueline Saywell
	13			10	
	20	Gladwen Meredith		17	Ann Thomas
	27			24	



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Ionawr	6	Bore	Alison Parsons a Ffion Parsons
Chwefror	3	Bore	Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones



YMWELWYR



Ionawr / Chwefror	Janet Davies a Gloria Evans
-------------------	-----------------------------



DARLLENWYR



Ionawr	6	Catrin Heledd	Chwefror	3	Dr Huw Michael
	13			10	Gill Owens
	20	Elis Jones		17	Elinor W Reynolds
	27	Carys Morgans		24	



CYHOEDDWYR



Ionawr	Catrin H Jones	Chwefror	Eirlys Jones
--------	----------------	----------	--------------

CRISTION

Cyhoeddiad deufisol – ar ei newydd wedd!
Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas



Y DDIWEDDAR MRS MARIAN LLOYD

Daeth cwmwl o dristwch i aelwyd y teulu Lloyd, Dôl yr Abaty, ar drothwy'r Nadolig ym marwolaeth Mrs Marian Lloyd yng Nghartref Glanmarlais, Llandybïe ar 11 Rhagfyr 2018.

Yn enedigol o Dre-fach, Llanybydder, daeth Marian Lloyd i'r fro hon wedi iddi briodi ag Oerwyn ac ymgartrefu yn y fferm deuluol, sef Glanrhyd, Horeb.

Gwraig addfwyn a thyner oedd Mrs Lloyd ond un a weithiodd yn galed iawn drwy ei hoes, gan dorchu llewys ar y fferm i gynorthwyo gyda'r gwaith ymarferol ynghyd â chadw cartref a magu Gethin a Glesni. Ymhen dim amser, daeth yr wyrion a'r wyresau i lonni'r aelwyd, a dod yn ffocws bywyd eu mam-gu a'u tad-cu.

Ymdeolodd Oerwyn a Marian Lloyd o Horeb i'r dref 18 mlynedd yn ôl gan ddod yn rhan o gymuned glos Dôl yr Abaty a pharhau i gadw'r enw Glanrhyd ar eu cartref newydd. Llawenydd i bawb ohonom oedd eu derbyn yn aelodau yn Y Priordy, a buont yn ffyddlon hyd eithaf eu gallu, tan i iechild Mrs Lloyd dorri. Bu'n gaeth i'w haelwyd ers nifer o flynyddoedd a derbyniodd ofal arbennig gan Glesni, yr wyrion a'r wyresau i gyd, ynghyd â thîm o ofalwyr arbennig. Diolch i Ymwelwyr y Priordy am ymweld â'u haelwyd yn gyson ar hyd y blynyddoedd.

Bu ei hangladd, a gynhaliwyd yn Amlosgfa Llanelli, fore Sadwrn, 22 Rhagfyr 2018 yn breifat yn ôl ei dymuniad. Gwasanaethwyd gan ei Gweinidog a da oedd gweld Mr Oerwyn Lloyd yn ddigon cryf i fynychu'r gwasanaeth. Ac yntau'n gantor o fri, gan ennill mewn nifer o eisteddfodau a gwylliau cerddorol ar ganu emyn, teyrnged hyfryd i'w briod annwyl oedd clywed recordiad ohono'n canu emyn yn ystod yr angladd.

Estynnwn ein cymdeimlad dwysaf â Mr Lloyd a'n dymuniadau gorau iddo ac yntau bellach wedi ymgartefu yng Nghartref Gofal Glanmarlais. Cofiw'n hefyd am Gethin, Glesni a'u teuluoedd yn eu hiraeth am fam a mam-gu annwyl.

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Catrin a Tim Reading a'r plant Efan, Llew ac Aron, ar golli, Mrs Anna Eynon, mam-gu Catrin a hen-famgu'r plant, ar 27 Rhagfyr 2018 yn Llŷs y Tywysog (cartref preswyl) Grovesend.

Ein cofion annwyl at y teulu yn eu profedigaeth.



LLONGYFARCHIADAU mawr i Rita Brown ar ddod yn hen-famgu am y tro cyntaf! Ganed Eloise Ffion Williams, merch Owain (ŵyr Rita) ac Ali ar 16 Rhagfyr 2018 yn Llundain. Anrheg Nadolig arbennig iawn! Ein dymuniadau da i'r teulu bach a hefyd i Rita, un o ffyddloniaid y Priordy dros y blynyddoedd.



A beth am barhau i longyfarch!.

Bu Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn dathlu'r deugain yn ddiweddar gyda chyngerdd arbennig yn y Lyric. Roedd nifer o ieuenctid y Priordy'n cymryd rhan. Mae erthygl ar y berthynas rhwng y Priordy ac Addysg Gymraeg yng Nghaerfyrddin yn y rhifyn hwn. Dymunwn bob llwyddiant i Fro Myrddin i'r dyfodol a hefyd i addysg Gymraeg yn gyffredinol yng Nghymru.



Ac yna llongyfarchiadau mawr i Ann Griffiths ac i bawb a fu'n trefnu ac yn cymryd rhan yn y Gymanfa Garolau a gynhaliwyd yn y Priordy ar 15 Rhagfyr 2018. Cafwyd noson arbennig gan lwyddo i godi dros £1500 at elusen *Amser Justin Time* er cof am Alison, merch Ann. Ymdrech ardderchog yn wir.



Cafodd y Dr Huw Michael ei holi ar y **Post Prynhawn ar Radio Cymru** ynglyn â chyflenwad trydan ynys Sark (10 milltir o Guernsey yn y Sianel). Roedd yr unig gwmni sy'n cynhyrchu a chyflenwi trydan ar yr ynys wedi bygwth cau i lawr am nad oeddent yn cael codi pris digon uchel. Ar y funud olaf cafwyd cytundeb rhwng y cwmni a'r llywodraeth i barhau i gyflenwi trydan gyda'r bwriad y bydd y llywodraeth yn gwladoli'r cwmni o fewn 3 mis.

Bu Tim Hayes yn adolygu'r chwaraeon ar **Raglen Dewi Llwyd** un bore Sul ar **Radio Cymru**. Da oedd deall hefyd fod Osian a'i Dad wedi bod yn dathlu pen-blwydd Osian yn y Liberty yn Abertawe – yn gwylio pêl-droed, cofiwch! A'n Gweinidog oedd yn cynnal **Munud i Feddwl** ar raglen y **Post Cyntaf** bob bore Mercher yn ystod mis Rhagfyr.



Gwelwyd **Côr Seingar**, dan arweiniad Nikki Roderick ac yn cynnwys nifer o aelodau'r Priordy, yn cymryd rhan yn y **Noson Lawen** arbennig ar **S4C** a gynhaliwyd yn Llambedi i ddathlu pen-blwydd Dafydd Iwan yn 75 oed!

Bu Peter Hughes Griffiths ar **Newyddion 9** ar **S4C** yn cael ei holi am y **Pecyn Croeso i Sir Gâr**. Mae'r pecyn, gyda llaw, wedi'i baratoi gan y Dr Myfanwy Jones, un arall o'n haelodau. sy'n gweithio yn Adran Bolisi'r Cyngor Sir gyda chyfrifoldeb am hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg.



Ar **Prynhawn Da** ar **S4C** bu Dewi Snelson yn sôn am lyfrau Nadolig i blant. Wrth i 2018 ddirwyn i ben, gwelsom ganu emyn yn y Priordy a chyfweliad â Rhian Evans wrth i **Dechrau Canu, Dechrau Canmol** ar **S4C** ein tywys drwy rai o uchafbwyntiau'r gyfres gyfredol hyd yma. Ar ar **Heno** ar **S4C** ar Nos Galan bu Elinor Wyn Reynolds yn sôn am eiriau Cymraeg newydd, fel *pawen lawen*, a fathwyd yn ystod 2018 ac sydd bellach yn prysur ddod yn rhan annatod o'n geirfa.



I GLOI, ein dymuniadau da i Lleucu Edwards, merch ifanc weithgar yn yr Eglwys, sy'n dechrau swydd newydd fel Cynorthwy-ydd Dosbarth (Lefel 3) yn Ysgol Gymraeg Ffwrnes y mis hwn. Pob hwyl iddi!

A BLWYDDYN NEWYDD DDA i bob un ohonoch!

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Chwefror i'n
Gweinidog neu Alun Charles

YN DYMUNO CYFAMODI?


**DR HUW MICHAEL
YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

Croeso i chi gysylltu ag e!



DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Tudur Dylan Jones, Rebecca Hayes, Dr Huw Michael, Gwynfor Davies, Elinor Wyn Reynolds ac Alun Harries am y lluniau'r mis hwn



Y SULLIADUR



Ionawr	6	Bore Hwyr	Cwrdd yr Ofalaeth gyda Catrin Heledd a'r Teulu a'n Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	13	Bore	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog. Lansio Apêl Madagasgar Cwrdd Eglwys i ddilyn	
	20	Bore P'nawn Hwyr	Y Parchedig Aled Edwards Oedfa i'r Ofalaeth am 2 ym Mancyfelin gyda'r Parchedig Aled Edwards Oedfa dan nawdd Cytûn yn Eglwys Crist am 5.00 ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol gyda'r Tra Pharchedig Sarah Rowland Jones, Deon Eglwys Gadeiriol Tyddewi'n pregethu	
	27	Bore	Ein Gweinidog	

Chwefror	3	Bore Nos	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	10	Bore	Ein Gweinidog	
	17	Bore	Ein Gweinidog	
	24	Bore Nos	Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yng nghwmni'r Plant a'r Bobl Ifainc am 10 ym Mhenuel Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yng ngofal Gweinidogion ac Offeiriad y dref am 5.00 yn Eglwys Crist	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant
GGD – Gwasanaeth Gŵyl Dewi

Ionawr				Chwefror			
6	13	20	27	3	10	17	24
-	CP	✓	✓ PIP	✓	✓ PIP	✓	GGD

Y GYMDEITHAS

RICHARD MORGAN

Aberystwyth

Nos Lun 4 Chwefror 2019 – 7 o'r gloch

Y Festri, Y Priordy

**Cymdeithas y Tair Eglwys (Y Tabernacl,
Caerfyrddin, Bethania, Talog, Noddfa, Foelcwan)
yn ymuno â ni.**

